CYMDEITHAS SENEDDOL Y GYMANWLAD
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

COMMONWEALTH PARLIAMENTARY ASSOCIATION
National Assembly for Wales

# Adroddiad ar Bumed Senedd Ieuenctid y Gymanwlad
# gan William Edwards ac Amy Fox

## Dydd Mawrth, 4 Rhagfyr

Daeth y sylweddoliad y byddem, heddiw, yn sefyll ym mhalas San Steffan, wrth inni aros yn awyddus ar y platfform am ein trên. Ar y ffordd i Lundain, trafodom yr hyn roeddem yn ei ddisgwyl o'r profiad a faint roeddem wedi bod yn edrych ymlaen ato. Ar ôl cyrraedd Llundain, cawsom ychydig o drafferth dod o hyd i'r gwesty, ond gyda help map Google a chwilio am arwyddion fe ddaethom o hyd i'r cyfeiriad cywir. Roedd cynrychiolwyr o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad (CPA) yno i'n croesawu yng ngwesty Tune gyda phecynnau ar ein cyfer. Roedd angen inni ddewis pa blaid y byddem yn ymuno â hi, a dewisodd y ddau ohonom blaid B. Ar ôl cael ein bathodynnau adnabod ar gordyn porffor (a oedd yn digwydd cydweddu â thei William) a'n pecynnau gwybodaeth, cawsom allweddi ein hystafelloedd yn y gwesty a mynd i'n hystafelloedd. Roedd ein llety yn fach ond yn safonol iawn. Er bod dwy awr rydd gennym, newidiom yn syth a pharatoi ar gyfer y noson i ddod. Am chwarter i chwech, teithiom o'r gwesty i San Steffan. Y daith fer ar y bws oedd y cyfle cyntaf i gwrdd â'n cyd-Seneddwyr Ieuenctid y Gymanwlad. Daethom yn ffrindiau gyda dau gynrychiolydd o Awstralia yn syth a buom yn siarad â hwy ar ein ffordd i'r palas.







Ar ôl cyrraedd San Steffan, cawsom ein tywys i ystafell y CPA a'n cyfarch gan

amrywiol aelodau'r CPA. Roedd Syr Alan Haselhurst AS ychydig yn hwyr am ei fod yn pleidleisio, ond fe gyrhaeddodd yn fuan wedi hynny. Estynnodd groeso cynnes a dymuno'n dda inni. Ar ôl iddo siarad, cawsom ein rhannu i'n pleidiau a chael clywed beth oedd o'n blaenau dros y dyddiau nesaf, a oedd yn gyfle arall i gwrdd â mwy o bobl.

Ar ôl clywed am y trefniadau, dychwelom i ystafell y CPA i glywed araith y Llywodraethwr Cyffredinol o'r orsedd. Cafodd yr araith ei darllen gan Dr Nafisa Shah (Is-Gadeirydd Pwyllgor Gweithredol Rhyngwladol y CPA) a Dr William F. Shija (Ysgrifennydd Cyffredinol y CPA).

Ar ôl yr araith o'r orsedd, aethom i fwyty enwog Bellamy's ar gyfer y derbyniad bwffe. Roedd awydd bwyd arnom ers y siwrnai ar y trên a'r cyffro o fod yn San Steffan, felly roeddem yn barod i lenwi'n boliau. Fodd bynnag, cawsom siom am nad oeddem yn gallu helpu ein hunain i'r holl fwyd, yn hytrach roedd staff gweini yn dod o amgylch yn cynnig darnau bychan o fwyd i ni e.e. cyri cig oen, pysgod a sglodion a betys a chaws gafr. Roedd y derbyniad yn gyfle perffaith i gwrdd â phobl a gwneud ffrindiau. Treuliom lawer o amser gyda chynrychiolwyr o Awstralia, yr Alban, Ynysoedd y Malfinas a Seland Newydd.

### Dydd Mercher, 5 Rhagfyr

Dechreuodd bore Mercher gyda brecwast, coffi a sgwrs gyda'n cyd-seneddwyr am y dydd i ddod. Gadawom y gwesty am 8.30 a theithio i Fynedfa Tŷ Portcullis yn San Steffan. Ar ôl cyrraedd, aethom i ystafelloedd Attlee ar gyfer sgwrs gyntaf y diwrnod. Roedd y sesiwn yn ymwneud ag ystyr Llywodraethu a pham ei fod yn bwysig. Roedd y siaradwyr yn cynnwys Gordon Campbell (Uchel Gomisiynydd Canada) ac Andrew Lansley AS. Cadeirydd y sesiwn oedd Dr Roberta Blackman-Woods AS. Roedd yn sgwrs ddifyr iawn a bu llawer o drafod yn y sesiwn hawl i holi ganlynol. Yn dilyn hynny, roedd sgwrs arall, y tro hwn yn ymwneud â Llywodraethu a Senedd San Steffan. Eto, roedd y sgwrs yn ddifyr iawn a chlywsom lawer am y system yn San Steffan. Roedd y siaradwyr yn hynod garismatig a wnaeth y sgwrs yn fwy difyr byth, a oedd i'w ddisgwyl gan fod y siaradwyr yn cynnwys Llefarydd Tŷ'r Cyffredin, y Gwir Anrhydeddus John Bercow AS.



Ar ôl egwyl am baned, dychwelom i'n seddi yn ystafelloedd Atlee am sgwrs arall. Y drafodaeth y tro hwn oedd beth yw swydd Aelod Seneddol. Y rhan fwyaf cofiadwy o'r sgwrs oedd araith yr aelod o senedd Swaziland am waith AS mewn gwlad ddatblygol. Roedd tebygrwydd rhwng ei waith ef a gwaith Andrew Mitchell, AS Coldfield, ond roedd yn amlwg bod gan Marwick Khumola lawer mwy o gyfrifoldebau. Roedd hynny'n agoriad llygad i Seneddwyr Ieuenctid y Gymanwlad o wledydd mwy cyfoethog.

Ar ôl y sgwrs, cawsom wybodaeth am gwestiynau llafar yn Nhŷ'r Cyffredin cyn gwylio sesiwn cwestiynau i'r Prif Weinidog. Roedd y sesiwn hawl i holi a ddilynodd yn hynod ddiddorol, wrth i aelodau o wledydd gwahanol sôn am y drefn yn eu gwledydd hwy a sut roedd yn wahanol i'r drefn yn San Steffan. Ar ôl gwylio sesiwn fywiog iawn o gwestiynau i'r Prif Weinidog, gwelsom ffilm fer o gwestiynau llafar yn Nhŷ'r Arglwyddi. Roedd yn dra gwahanol i Dŷ'r Cyffredin, yn llawer mwy hamddenol ac yn llai o sioe.

Yna, cawsom ginio a chyfle i ymlacio ar ôl bore prysur o sgyrsiau. Roedd yn gyfle i feddwl am yr hyn roeddwn wedi'i ddysgu a'i drafod dros fwyd gyda'n ffrindiau newydd o bob cwr o'r byd.

Ar ôl cinio, cawsom ein sesiwn glymblaid gyntaf. Dechreuodd yn araf, wrth i ni ethol ein mainc flaen. Cynigiodd William ei hun fel dirprwy arweinydd, ond yn anffodus cafodd ei guro gan gynrychiolydd o Trinidad a Tobago. Yna, roedd angen paratoi llefarydd ein plaid ar gyfer y Gynhadledd Ieuenctid i'r Wasg. Am 3 p.m., cawsom sgwrs am bwnc y gallwn oll uniaethu ag ef, sef rôl y cyfryngau a'r cynnydd mewn cyfryngau cymdeithasol. Roedd gan bawb rhywbeth i'w gyfrannu am fod gennym, fel pobl ifanc, syniadau da am rôl cyfryngau cymdeithasol mewn gwleidyddiaeth. Gweithgaredd olaf y diwrnod oedd y Gynhadledd Ieuenctid i'r Wasg. Roedd yn ffordd wych o ddod â'r diwrnod i ben. Roedd pob cynrychiolydd yn siarad am dreth teithio ar gyfer teithiau hedfan domestig i ariannu mentrau i fynd i'r afael â newid hinsawdd. Bu pawb yn holi a chraffu ar y llefarwyr.

## Dydd Iau, 6 Rhagfyr

Dechreuodd dydd Iau gyda chyflwyniad i'r system bwyllgorau a'r rhan allweddol mae'n chwarae yn system seneddol y Llywodraeth. Dilynwyd hynny gan weithdy pwyllgorau lle clywsom am y broses o alw pobl i bwyllgorau i graffu ar ddeddfwriaeth. Buom yn craffu ar Fil yn ymwneud â diweithdra ymysg pobl ifanc. Roedd Chris Rhodes (arbenigwr o lyfrgell Tŷ'r Cyffredin) yno i roi barn arbenigol ar y Bil. Yna, symudom i ystafell bwyllgora Gladstone, sy'n ystafell anhygoel. Roedd yr ystafell ogoneddus hon yn ysbrydoliaeth i ni'n dau. Roeddem eisiau dechrau gweithio ar y gweithdrefnau'n syth. Roeddem yn trafod y Biliau rheol deng munud, a bu cryn dipyn o drafod. Roedd y cynnig a enynnodd y drafodaeth fwyaf yn ymwneud â chyfreithloni priodasau hoyw ledled y Gymanwlad.



Ar ôl trafod y Bil a phleidleisio arno, aethom yn ôl i ystafelloedd Atlee i gael sgwrs am bwysigrwydd a rôl yr wrthblaid a'r pleidiau lleiafrifol a sut mae clymblaid yn gweithio. Siaradodd Jonathan Edwards AS am bwysigrwydd cynrychioli plaid leiafrifol yn Nhŷ'r Cyffredin. Holodd William ef am gwestiwn West Lothian. Ar ôl y sgwrs, bu William yn siarad gyda Mr Edwards am ei etholaeth, am fod tad William yn arfer byw yno.



Roedd ein hail sesiwn glymblaid hefyd yn sesiwn danbaid. Trafodwyd safbwynt y blaid ar gynnig yr wrthblaid, sef, 'Dylai'r Gymanwlad wneud popeth o fewn ei phŵer i amddiffyn endidau democrataidd, hyd yn oed os oes rhaid defnyddio trais'. Penderfynodd y blaid wrthwynebu'r cynnig ar y sail ein bod yn blaid sy'n cadw'r heddwch.

Ar ôl cinio, aethom nôl i ystafell bwyllgora Gladstone i drafod cynnig yr wrthblaid. Roedd yn brofiad anhygoel. Roedd y ddadl gyffrous yn debyg i ddadl yn Nhŷ'r Cyffredin, roedd y weithdrefn yn llawn cynnwrf ac roedd William yn paratoi ei hun i siarad yn erbyn y cynnig. Ar ôl y ddadl gyfareddol

yn ystafell Gladstone, aethom yn ôl i ystafelloedd Atlee i gael sgwrs am rôl pobl ifanc mewn gwleidyddiaeth. Roedd hon yn un o'r sgyrsiau mwyaf rhyngweithiol a gawsom. Y siaradwyr oedd Andrew Percy AS, Lisa Nandy AS



ac Emily Shaw, y cynrychiolydd o'r Alban. Gallai pawb uniaethu â'r pwnc hwn a bu pawb yn cymryd rhan a holi.  Ar ôl y sgwrs ardderchog, cawsom gyflwyniad i bwnc dadl dydd Gwener, sef, 'Dylai Addysg Gyffredinol fod am ddim'.

Yna, gadawom Dŷ'r Cyffredin i fynd i Dŷ Malborough. Roedd y tŷ hwn yn anhygoel o hardd, ac roedd cyfle i edmygu'r golygfeydd ar y ffordd i'r ystafell gynadledda. Daethom at ein gilydd yn yr ystafell gynhadledd ar gyfer y fraint o glywed sgwrs gan Mmasekgoa Masire-Mwamba, Dirprwy Ysgrifennydd Cyffredinol y Gymanwlad. Er ein bod wedi blino ar ôl diwrnod hir, enynnodd Mrs Masire-Mwamba ein sylw gan ddisgrifio pwysigrwydd y Gymanwlad.

## Dydd Gwener, 7 Rhagfyr



Cafwyd dechrau cyffrous i'r diwrnod olaf pan gawsom ein tywys oddi ar y bws ac i'r Ystafell Bwyllgora Fawr. Roeddwn yn trafod y Bil diweithdra ymysg pobl ifanc y buom yn craffu arno ddoe a chynnig gwelliannau iddo. Roedd yn ddechrau cyffrous i'r diwrnod wrth i ni ddadlau'n frwd am bynciau diddorol. Roedd y sesiwn, a gafodd ei chadeirio gan Joe Benton, yn ffordd wych o ddechrau'r dydd a'n paratoi ar gyfer y brif ddadl yn ddiweddarach.  Ar ôl

trafod y Bil a phleidleisio ar y gwelliannu, roedd cyfle i drafod enghreifftiau o bobl ifanc yn cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth. Roedd yn agoriad llygad i bawb gael clywed sut roedd pobl ifanc yn cymryd rhan mewn ffyrdd gwahanol mewn gwahanol wledydd. Roedd y drafodaeth yn ddifyr iawn.

Ar ôl bore prysur yn trafod, cawsom baned a thaith o amgylch dau Dŷ'r Senedd. Er ein bod wedi bod ar y daith nifer o weithiau yn y gorffennol, nid oeddem wedi blino ar adeiladau anhygoel y Palas o bell ffordd. Gallwn wrando ar hanes cyfoethog yr adeilad dro ar ôl tro. Ar ôl y daith, cawsom wybodaeth am y ddadl y byddwn yn ei chael ar ôl swper a fyddai'n debyg i ddadl yn Nhŷ'r Arglwyddi. Roeddem yn edrych ymlaen at hynny am y byddai cyfle i ni siarad. Roeddwn yn sicr y byddai'r dadleuon yn rhai cyffrous. Cawsom ein cinio olaf yn ystafelloedd Atlee a dechrau hel atgofion am ein hamser yn Llundain dros y dyddiau diwethaf a chymaint o hwyl a fu. Ar ôl swper, cafodd ein clymblaid ei chyfarfod olaf, a oedd yn gyfle i gytuno ar ein safbwynt ar y cynnig, 'Dylai Addysg Gyffredinol fod am ddim'. Roedd yr holl siaradwyr wedi ysgrifennu eu cyfraniadau ac roedd pawb yn paratoi eu hunain ar gyfer y dadleuon.




Roedd lluniaeth a chyfle i ymlacio cyn y ddadl, ac roedd cyfle i ni baratoi'r hyn roeddem yn mynd i'w ddweud.

Ar ôl lluniaeth, roedd yn amser mynd i'r Ystafell Wisgo ar gyfer ein dadl ar ffurf Tŷ'r Arglwyddi, a oedd yn cael ei gadeirio gan y Farwnes D'Souza. Eisteddodd pawb yn eu lle a dechreuodd William deimlo'n nerfus, achos bod ei dro ef i siarad cyn bo hir. Safodd i roi ei araith ar bwysigrwydd addysgu pobl ifanc a sicrhau bod pawb yn gallu fforddio cael addysg. Ar ôl i bawb siarad, roedd yn amser pleidleisio. Pleidleisiwyd o blaid ein cynnig y dylai addysg gyffredinol fod am ddim. Ar ôl dychwelyd i ystafelloedd Atlee, roedd yn amser casglu ein pethau a mynd i bencadlys y CPA yn Millbank ar gyfer y derbyniad ffarwel. Wrth gyrraedd roedd sŵn drymiau dur a band Affricanaidd byw yn ein croesawu, a oedd yn hyfryd. Dyma ein cyfle i olaf i siarad â'r bobl roeddem wedi dod yn ffrindiau â hwy




dros y 5 niwrnod diwethaf. Addawom i gadw mewn cysylltiad â'n ffrindiau newydd a daeth y noson i ben gyda phawb yn cael tystysgrif gan Ysgrifennydd Cyffredinol y CPA, Dr William F. Shija.

Hoffem ddiolch i gangen CPA Cymru am roi'r cyfle anhygoel hwn i ni.

**William Edwards**
**Amy Fox**